



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAF 2015

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad 2015 TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

HAEN SYLFAENOL

BARDDONIAETH

C.1 (a) Ieuenctid
Bryan Martin Davies [2]

(b) Rhaid cyfeirio at y gerdd gyfan. [20]
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y gerdd yn sôn am daith ysgol Sul y bardd i'r traeth yn Abertawe
- Cofia deithio yno ar y "pensil coch o drên"
- Cychod a chestyll a chloc o flodau
- Eistedd ar y tywod twym yn yfed y glesni
- Gweld y gwylanod yn taro'r creigiau
- Llonyddwch y môr fel gwydr
- Gwyllo'r llongau yn cario bananas i'r dociau yn Abertawe
- Ar ddiwedd y dydd rhaid oedd dychwelyd i gaethiwed y pentref glofaol a'r gwaith glo
- Ffoaduriaid undydd oedden nhw

16-20	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys • defnyddio dyfyniadau addas • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gfael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gfael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
4-9	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • peth gwybodaeth yn unig am y gerdd • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

(c) Rhaid i'r tair nodwedd fod yn wahanol.
Rhaid enwi'r nodwedd cyn cael marc am y dyfynnu ac effeithiolrwydd.
Os nodir nodwedd heb ddyfyniad – dim marc.
Gellir cyfeirio at fesur fel nodwedd – ½ marc am enwi'r mesur, ½ marc am enwi un o briodoleddau'r mesur; 2 farc am drafod effeithiolrwydd y mesur yn y gerdd.

- ½ marc am enwi'r nodwedd
- ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd
- 2 farc am esbonio effeithiolrwydd

3 marc x 3

[9]

(ch)

[9]

7-9	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos dealltwriaeth eithaf da o thema• defnyddio dyfyniadau addas• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i>• <i>arddangos gfael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-6	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos dealltwriaeth o thema• defnyddio dyfyniadau• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i>• <i>gfael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
2-3	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos peth dealltwriaeth o thema• defnyddio ambell ddyfyniad• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-1	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos ychydig o ddealltwriaeth o thema• <i>ymgais at ddilyniant</i>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[40]

C.2 (a) $\frac{1}{2}$ am enwi'r cerddi x 2
 $\frac{1}{2}$ am enwi'r beirdd x 2

[2]

Pigo Cydwybod	Natur a Dynoliaeth
Gail Fu Farw – Nesta Wyn Jones	Y Llwynog – R Williams Parry
Tŷ'r Ysgol – T H Parry-Williams	Y Môr – Einir Jones

Gellir derbyn 'Cydwybod' a 'Y Coed' gan eu bod yn y themâu hyn ar yr haen uwch.

<p style="text-align: center;">Y Môr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y gerdd yn sôn am y modd yr ydym ni wedi dinistrio'r môr • Cawn ddarlun hapus o'r môr ar ddechrau'r gerdd – yn llawn pysgod yn “dawnsio'n hapus” • Mae digon o bysgod yn y môr nes i ddyn ddechrau ei lygru gydag olew • Mae dyn yn taflu poteli gwag a sbwriel a chemegion i ladd yr holl fyd natur sy'n byw yn y môr • Hyd yn oed yn waeth na hyn mae dyn yn llygru'r môr gydag iwraniwm • Nid heddiw yn unig fydd yn cael ei ddinistrio gan lygredd dyn – ond ni ddaw byd natur byth yn ôl i'r môr. • Yr hyn sy'n poeni'r bardd ar ddiwedd y gerdd yw'r ffaith bod dyn yn “gorfoleddu ym marwolaeth y môr.” 	<p style="text-align: center;">Gail Fu Farw</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae hon yn gerdd drist sy'n adrodd hanes merch ifanc a fu farw o effaith cyffuriau. • Ar ddechrau'r gerdd deallwn fod bywyd a marwolaeth Gail yn “ddiystyr”. “Eitha niwsans” oedd Gail i bawb ac o ddyddiau ei phlentyndod cafodd ei thafllu fel parcel o un sefydliad i'r llall. Teimla'r bardd nad oedd neb yn poeni am sefyllfa Gail “byd na falia!” • Nid oedd Gail yn gallu cofio cyfnod hapus yn ei bywyd gan ateb y cwestiwn hwn “Mae'n siŵr yn blentyn.” • Trodd at gyffuriau i ennill “ffug-hapusrwydd Heroin” • Ceir disgrifiad o'i hangladd a'i harch “yn diflannu i dywyllwch taclus, mesuriedig,” Mae'r taclusrwydd hwn yn cyferbynnu gyda'i bywyd a oedd ar chwâl. • Dieithr oedd yr offeiriad ac od oedd ei ffrindiau.
<p style="text-align: center;">Y Llwynog</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn y gerdd hon, yr hyn wna'r bardd yw cyfleu profiad tri gŵr â llwynog ar ddiwrnod braf ym mis Gorffennaf. • Mae'r digwyddiad wedi cael gymaint o effaith ar y bardd nes ei fod yn cofio'r union fan lle gwelodd y llwynog “ganllath o gopa'r mynydd.” • Roedd dewis gan y bardd ar brynhawn Sul, roedd clychau'r eglwys yn canu ac yn ei alw i fynd i'r eglwys, ond roedd haul tanbaid “Gorffennaf gwych” yn ei alw tua'r mynydd. • Yn sydyn, gwelodd y tri gŵr y llwynog yn dod o'u blaenau. Doedd dim i'w wneud wedyn ond aros yn llonydd “megis trindod faen y safem.” Syfrdanwyd y llwynog yn yr un modd “Syfrdan y safodd yntau” a chawn ddarlun o'i lygaid yn syllu amynt “dwy sefydlog fflam ei lygaid arnom.” • Daw'r gerdd i ben wrth i'r bardd nodi fod y llwynog wedi diflannu dros grib y mynydd. Yn ôl y bardd, roedd y cyfan wedi digwydd mewn amser byr iawn, “Digwyddodd, darfu megis seren wib.” 	<p style="text-align: center;">Tŷ'r Ysgol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gerdd yn agor gyda'r argraff fod rhywun yn byw yn yr hen gartref gan fod “rhywun yno weithiau'n sgubo'r llawr Ac agor y ffenestri...” Ond y gwir yw nad oes neb yn byw yng nghartref y teulu ar ôl i rieni'r bardd farw “nad oes neb yno'n byw ar ôl y chwalfa fawr” a'r plant wedi mynd i'w cyfeiriadau eu hunain. • Dengys y bardd ei fod yn ymweld â'i hen gartref o dro i dro am wyliau “er mwyn cael seibiant bach o'r dre.” Wrth iddo wneud hyn roedd trigolion Rhyd-ddu yn cael sioc gweld bywyd yn yr hen gartref. • Yn y chwechawd olaf mae trigolion Rhyd-ddu'n dechrau holi cwestiynau, sef pam roedd y bardd a'r teulu am gadw hen gartre'r teulu, yn arbennig gan eu bod wedi colli eu rhieni. Nid oes gan y bardd ateb “ni wn paham”. • Yn y cwpled clo, mae'n ceisio ateb cwestiwn y pentrefwyr, gan awgrymu ei fod yn ei chael yn anodd gwerthu rhag ofn i'r rhieni sydd yn eu bedd “Synhwyro rywsut fod y drws ynghlo,”

- (b) Disgwylir i'r ymgeiswyr ymdrin â'r ddwy gerdd yn gyfartal. 10x2 marc [20]
Os bydd ymgeisydd wedi ateb ar un gerdd yn unig / cerdd amherthnasol – 10 marc yw'r uchafswm a ddyfernir.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys defnyddio dyfyniadau addas <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	<ul style="list-style-type: none"> arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol defnyddio dyfyniadau <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
2-4	<ul style="list-style-type: none"> arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol defnyddio ambell ddyfyniad <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> peth gwybodaeth yn unig am y gerdd <i>ymgais at ddilyniant</i> <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

- (c) Rhaid i'r tair nodwedd fod yn wahanol.
Rhaid enwi'r nodwedd cyn cael marc am y dyfynnu ac effeithiolrwydd.
Os nodir nodwedd heb ddyfyniad – dim marc.
Gellir cyfeirio at fesur fel nodwedd – ½ marc am enwi'r mesur, ½ marc am enwi un o briodoleddau'r mesur; 2 farc am drafod effeithiolrwydd y mesur yn y gerdd.
- ½ marc am enwi'r nodwedd
 - ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd
 - 2 farc am esbonio effeithiolrwydd
- 3 marc x 3 [9]

(ch)

[9]

7-9	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos dealltwriaeth eithaf da o thema• defnyddio dyfyniadau addas• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-6	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos dealltwriaeth o thema• defnyddio ambell ddyfyniad• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
2-3	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos peth dealltwriaeth o thema• defnyddio dyfyniadau• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-1	<ul style="list-style-type: none">• ymateb a dangos ychydig o ddealltwriaeth o thema• <i>ymgais at ddilyniant</i>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[40]

Llinyn Trôns

- C.3** (a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Gwenan a Gags wedi ffraeo ar sawl achlysur
 - Syrthio i'r dŵr wrth ganŵio
 - Y darn yr oedd ef wedi mwynhau oedd “pan fyddwn ni'n mynd adre”
 - Wedi methu mewn sawl gweithgaredd – angen cyfeirio at yr abseilio ayb
 - Nobi bron â'i ladd – gollwng y rhaff
 - Gags ddim yn hoffi'r ffaith bod merch yn ei hyfforddi
 - Nobi yn mynd o dan groen Gags
- [3]
- (b) 1 marc am bob pwynt
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Y teulu arfer dod yma i fwynhau'r olygfa
 - Merch y plasty'n anhapus iawn
 - Lladdodd ei hun drwy ei thafu ei hun oddi ar y graig
 - Gags wedi disgyn o ben y graig / wedi marw
- [3]
- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Twmpath dawns a disgo wedi eu trefnu ar eu cyfer
 - Llion yn dawnsio gyda Donna a Gwenan yn y twmpath
 - Gags yn pwdu a gwrthod dawnsio gyda Gwenan
 - Cyn y disgo Gags a Nobi yn mynd i chwilio am eu halcohol a'r cyffuriau
 - Olwen a Gwenan yn meddwi
 - Gwenan yn poeni bod Gags wedi bod yn ymddwyn yn rhyfedd – poeni am ganlyniadau TGAU efallai
 - Gwenan yn dawnsio gyda Llion – y ddau yn cusanu
 - Gwenan yn credu iddi weld Gags yn diflannu gyda merch arall
 - Gwenan yn gweiddi ar Donna
 - Tecs Pecs yn dawnsio gyda Donna
 - Gwenan yn chwydu
- [10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

(ch)

[6]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

unig	Nid oes llawer o ffrindiau ganddo – athrawon yr ysgol ddim yn ei adnabod
caedig	Yn rhoi hyder i Gwenan wrth iddyn nhw gerdded i fyny'r mynydd
gwan	Hawdd ei fwlio – Gags a Nobl yn taflu ei ben i lawr y tŷ bach / gwlychu ei wely
magu hyder	Llwyddo yn nifer o'r gweithgareddau yn y gweryll
tawel	Hoffi cwmni ei hunan – chwarae ar ei gyfrifiadur
diog	Gwyllo cyfrifiadur drwy'r amser
euog	Anwybyddu cwestiwn Donna am Gags

5-6	<ul style="list-style-type: none">dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadrhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriadrhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y storiambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

- (d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw trafod effaith [4]

(dd)

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- wedi synnu ei hunan cymaint y mae ef wedi mwynhau'r cwrs
- llwyddo i wneud pethau ar y cwrs er gwaethaf ei bwysau – mynd i mewn i'r canŵ
- llwyddo i goncro un o'i ofnau mwyaf – uchder
- cyfeirio at fwlian Gags a Nobi
- synnu bod Nobi yn ei enwi fel rhywun oedd wedi ei helpu ar ôl iddo ddisgyn i'r llyn
- cyfeirio at Llion fel ei gyfaill ar y daith

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none">• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau• <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none">• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau• <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'r briodol i'r pwrpas</i>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none">• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau• <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[40]

Bachgen yn y Môr

- C.4** (a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- rhannu tin o sardfins gyda Jamal, Bibi ac Omar
 - rhoi eli haul iddyn nhw
 - gofalu am Jamal a Bibi – rhoi dŵr iddyn nhw
 - Rashida'n rhoi'r oriawr i'r smyglwyr
- [3]
- (b) 1 marc am bob pwynt
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Merched ddim yn cael bod allan ar eu pennau eu hunain – heb riant
 - Pêl droed i ferched wedi ei wahardd yn llwyr gan y Taliban
 - Merched yn gorfod cuddio eu hwynebau bob amser pan fyddan nhw allan o'r tŷ
- [3]
- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Gorfod talu can doler yn ychwanegol am y daith
 - Rashida yn cynnig yr oriawr i'r smyglwyr i dalu am y daith iddi hi, Jamal, Bibi ac Omar
 - Rashida wedi byw yn Awstralia o'r blaen
 - Môr-ladron yn ymosod gydag arfau awtomatig ar gwch y ffoaduriaid
 - Mynd â bwced o arian a phethau gwerthfawr
 - Jamal yn dweud wrth Bibi a Rashida am guddio eu gwalltiau mewn hetiau a chuddio eu sgertiau – twyllo'r môr-ladron
 - Dangos sgiliau pêl droed Bibi a Rashida er mwyn twyllo pellach
 - Jamal yn cael ei anafu wrth iddo daclo'r môr-leidr rhag iddo gymryd ei bêl
- [10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

(ch)

[6]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

gofalgar	Yn ofalus iawn o Bibi – ei hachub ar sawl achlysur
dewr	Cerdded at flaen y tanc a chael gafael ar y bêl
trist	Gorfod gadael ei gartref
deallus	Gorchymyn Rashida a Bibi i glymu eu gwalltiau / cuddio eu sgertiau

5-6	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad• rhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad• rhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

- (d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw trafod effaith [4]

(dd)

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- yn falch bod y pedwar ohonyn nhw nôl gyda'i gilydd
- eisiau bod yn seren bêl droed yn Awstralia
- dychwelyd i Afghanistan i ffurfio llywodraeth newydd
- cael ei thafu dros ochr y cwch
- ofn wrth weld ei bod hi a Jamal ar gwch ar wahân i'w rhieni
- cymorth Rashida iddi hi a Jamal ar y cwch

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none">• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau• <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none">• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau• <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'r briodol i'r pwrpas</i>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none">• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau• <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[40]

Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

- C.5** (a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- cyfaddef ar ei wely angau mai ef oedd wedi dwyn y gemau o siop Jenkins a saethu'r siopwr
 - dial ar Richard Jones / William Hughes am ddwyn ei hanner ef o'r gemau
 - dweud wrth yr heddlu bod Richard Jones wedi bod yn yr ysbyty wythnos ynghynt

[3]

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
1 marc am bob pwynt
- Meredydd wedi colli ei rieni mewn damwain car tua deunaw mis ynghynt
 - Nid oedd yr heddlu wedi bod yn gymorth iddo chwilio am gorff ei dad
 - Wedi ei gyhuddo o dreisio Bethan Gwastad Hir
 - Pensaer
 - Byw drws nesaf i Gladys
 - Mewn perthynas â Bethan

[3]

- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Yr heddlu wedi gadael y tŷ mewn llanast – yn chwilio am gylchgronau budron
 - Ei fodryb – gwraig ei gyfreithiwr yn dod i'w helpu i dacluso'r tŷ
 - Mynd allan i siopa – gweld Gladys yn y siop
 - Wrth i Meredydd wario mwy o arian yn siop Harri Jôs – mae'n newid ei feddwl am Meredydd
 - Cael ei fygwth yn y garej gan Huw Gwastad Hir
 - Croeso mawr gan eraill yn y pentref – yn Yr Wylan Wen yn arbennig
 - Rhybuddio am Huw Gwastad Hir
 - Ymosodiad Huw ar Meredydd yn y tywyllwch
 - Meredydd yn gwrthod dweud pwy ymosododd arno
 - Gwraig yn cerdded allan o siop y cigydd pan aiff Meredydd i mewn yno

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel. • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

(ch)

[6]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

cyfrwys	Twyllo Now trwy fynd ag ef i'r Wylan Wen i feddwi
creulon	Lladd Dwalad – unig gwmni Now ar y fferm
cynllwyngar	Torri i mewn i sied Gladys / swyddfa penseiri i gael y cynlluniau
snobyddlyd	Aros yn Yr Erddig yn hytrach nag yn Nhan Ceris – oni ddylai ef fod wedi aros gydag ef – os oedd ganddo gymaint o ddiddordeb yn yr hen gae?

5-6	<ul style="list-style-type: none">dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadrhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriadrhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y storiambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

- (d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw trafod effaith [4]

- (dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- ei chyffro fod Meredydd wedi gofyn iddi ei briodi
 - ofn perthynas arall ar ôl iddi gael ei siomi unwaith o'r blaen
 - amheuaeth ohono ar y dechrau – achos treisio Bethan
 - ei fod yn berchen tŷ a swydd dda ganddo – pensaer
 - cyffro digwyddiadau'r noson gynt – Richard Jones
 - teimlo'n flin am Now
 - teimlo'n flin am Meredydd – yr heddlu'n chwilio am RJ – neb wedi chwilio am ei dad
 - mynd â Meredydd i gyfarfod ei rhieni
 - mae hi wedi torri dyweddïad yn y gorffennol.

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da • ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau • <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch • dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau • <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'r briodol i'r pwrpas</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml • ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau • <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[40]

I Ble'r Aeth Haul y Bore?

- C.6 (a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:
- gwenwyno'r dŵr – pysgod yr afonydd
 - llosgi'r tipis
 - dinistrio'r cnydau
 - Cotiau Glas yn arwyddo cytundeb i symud yr Indiaid
 - Dicks wedi ymosod ar wersyll yr Indiaid pan nad oedd y dynion yno
- [3]
- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
1 marc am bob pwynt
- parchu'r Indiaid – wedi byw gyda'r Indiaid ac yn dad i ferch un o'r Indiaid
 - nid oedd am wneud niwed parhaol i'r Indiaid – cyflwyno'r syniad o ddinistrio'r cnydau
 - rhyfelwr gwych ac arweinydd arbennig
 - am drafod gyda'r Indiaid cyn gweithredu
 - cyfeirio at Carson fel Taflwr Rhaffau
- [3]
- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis: [10]
- derbyn gwn ar ei blât bwyd er mwyn iddo allu dianc
 - dal gwn ar Carleton
 - gwisgo dillad Carleton
 - dianc ar gefn ceffyl
 - tynnu dillad Carleton a gwisgo dillad yr Indiaid
 - Chico a Carson am gynorthwyo'r Indiaid a dial ar Dicks
 - Cynorthwyo Haul y Bore i ddianc

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

(ch)

[6]

Gellir sôn am bwyntiau megis:

dewr	Trefnu ymosodiad ar y Cotiau Glas ar ôl clywed stori Quannah
dialgar	Lladd Dicks ar ddiwedd y nofel
arweinydd naturiol	Cael ei baratoi i fod yn arweinydd yn y dyfodol
cariadus / caredig	Yn ofalus iawn o Haul y Bore yn dilyn y trais a lladd Chiquito

5-6	<ul style="list-style-type: none">dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadrhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriadrhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y storiambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

- (d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw drafod effaith [4]

- (dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- gwrthod gadael gyda Chico – wedi addo ei bod am ofalu am yr henoed
 - cerdded gyda Quannah
 - gwarchod Quannah rhag chwip y milwr
 - osgoi Dicks – ond saeth Chico yn ei fwrw yn ei ysgwydd
 - gwrthod cerdded ymhellach
 - Dicks yn treisio a lladd Chiquito
 - meddwl bod Dicks yn mynd i'w threisio eto

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da • ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau • <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch • dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau • <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml • ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau • <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[40]

HAEN UWCH

BARDDONIAETH

C.1 (a) Thema: Natur a Dynoliaeth

Bardd: Gwenallt

[2]

(b) Cynnwys y gerdd

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y chwe miliwn o goed yn cynrychioli'r Iddewon a lofruddiwyd gan y Natsiaid yn ystod yr Holocaust
- Y coed yn gof golofnau byw i gofio am y meirw
- Nid yw'r Iddewon yn gwbl ddiuog – Iddewon hefyd wedi rhyfela a lladd dynoliaeth
- Bys Gwenallt yn pwyntio atom ni – y bomio didrugaredd ar Dresden a'r cyfeiriad at Hiroshima a Nagasaki yn ystod yr Ail Ryfel Byd
- Gwenallt yn troi yn ail hanner y gerdd i fynegi barn ar y ganrif waethaf "y fwyaf barbaraidd ohonynt hwy i gyd."
- Cyfeiriad at Grist – yr unig berson perffaith i fyw ar y ddaear
- Tymhorau a newid lliw'r dail yn cynrychioli treigl amser
- Bydd dynoliaeth yn edrych 'nôl ar y gorffennol ac yn gweld nad oedd y presennol yn "llawer o Saint."

ond gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

[20]

16-20	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynus</i> • <i>gafael gadarn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg yn gywir</i>

(c) Trafod nodweddion arddull

4 nodwedd x 2 farc yr un

Ni ellir cyfeirio at yr un nodwedd ddwywaith

½ marc am enwi'r nodwedd

½ marc am ddyfynnu'r nodwedd

1 marc am drafod effeithiolrwydd

[8]

(ch)

[10]

8-10	<ul style="list-style-type: none">• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r thema• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol• <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynus</i>• <i>gafael gadarn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
